Swyddfa'r
Gwarcheidwad
Cyhoeddus

# OPG InTouch

Y cylchlythyr i ddirprwyon



## Yn y rhifyn hwn o InTouch...

**Y camau nesaf i wella goruchwyliaeth a chefnogaeth i ddirprwyon.**

**Yr adroddiad blynyddol ar gael yn ddigidol**

**Deddf Gofal 2014**

**...a llawer mwy**

# Y camau nesaf i wella goruchwyliaeth a chefnogaeth i ddirprwyon – yr hyn mae'n ei olygu i chi

**Mae'r ffordd rydyn ni'n goruchwylio ac yn cefnogi dirprwyon yn datblygu. Mae'r erthygl hon yn edrych ar y newidiadau byddwn ni'n eu cyflwyno dros y misoedd nesaf a'r hyn gallwch chi ei ddisgwyl, gan ddibynnu ar eich math o ddirprwyaeth.**

Rydyn ni'n gweithredu'r argymhellion a wnaed yn ein hadolygiad goruchwylio, yr oeddem wedi'i gyflwyno i'r Senedd ym mis Rhagfyr 2014. Efallai eich bod eisoes wedi gweld neu brofi rhai o'r rhain yn barod. Bydd newidiadau eraill yn cael eu cyflwyno'n raddol, a byddwn yn rhoi digon o rybudd i chi am unrhyw newid a fydd yn effeithio arnoch chi.

O fis Medi ymlaen, ni fyddwn yn cyfeirio at "lefelau" goruchwylio mwyach - mathau 1, 2, 2A a 3. Yn lle hynny, byddwn yn siarad am oruchwyliaeth gyffredinol neu finimal.

Newid arall ar gyfer yr holl ddirprwyon fydd ffurflenni adrodd newydd, a byddwn yn cyflwyno'r rhain mewn camau dros y misoedd nesaf. Rydyn ni wedi datblygu a phrofi'r rhain gyda dirprwyon. Byddan nhw yn gliriach ac yn haws eu llenwi a byddan nhw'n cynnwys cyfarwyddyd gwell.



## Dirprwyon lleyg (er enghraifft, cymar, perthynas, ffrind neu gymydog)

1. Mae dirprwyon newydd nawr yn cael galwad ffôn gennym ni yn agos at ddechrau eu dirprwyaeth, er mwyn siarad am y gorchymyn dirprwyaeth ac er mwyn ateb unrhyw gwestiynau. Efallai byddwn yn trefnu i ymwelydd ddod i'ch gweld chi os ydyn ni'n credu y bydd angen hynny. Byddwn yn siarad â chi am gadw cofnodion a sut byddwch chi'n adrodd i ni yn y dyfodol
2. **Newydd** – o ddechrau 2016 ymlaen, os ydych chi'n ddirprwy newydd, byddwn yn gofyn i chi restru'r asedau sy'n berchen i'r sawl rydych chi'n rheoli eu materion a dweud wrthym am unrhyw benderfyniadau arwyddocaol rydych chi'n bwriadu eu gwneud dros y flwyddyn nesaf. Byddwn yn cysylltu â chi yn ystod chwe wythnos gyntaf eich dirprwyaeth er mwyn casglu'r wybodaeth hon. Gallwn wedyn fonitro a chynghori ynghylch unrhyw gamau penodol y bydd angen i chi eu cymryd efallai. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn gwneud hyn yn ystod yr alwad ffôn ar ddechrau eich dirprwyaeth
3. Tua hanner ffordd drwy eich blwyddyn gyntaf fel dirprwy byddwn yn cysylltu â chi eto i weld sut mae pethau a'ch paratoi chi i gwblhau eich adroddiad cyntaf
4. **Newydd** – os ydych chi'n ddirprwy sydd wedi cael eich penodi ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015, byddwn yn cynnal archwiliad llawn o'ch adroddiad dirprwy cyntaf ac yn gofyn i chi am gefnogaeth ategol fel cyfriflenni banc. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd gennym ni unrhyw gwestiynau
5. **Newydd** – os cawsoch chi eich penodi cyn 1 Ebrill 2015 ond nad ydych chi wedi gorfod llenwi adroddiad o'r blaen oherwydd bod goruchwyliaeth math 3 wedi cael ei dyrannu i chi, bydd gofyn i chi lenwi adroddiad yn y dyfodol. Rydyn ni'n cyflwyno hyn yn raddol dros y tair blynedd nesaf. Byddwn yn siarad â chi fesul un ac yn rhoi digon o rybudd a chefnogaeth pan ddaw hi'n amser adrodd.
6. **Newydd** – cyn mis Ebrill 2016, rydyn ni'n gobeithio gallu agor eich ffurflen adroddiad ar-lein ar gyfer pob dirprwy lleyg. Rydyn ni'n profi hyn gyda rhai o'n dirprwyon ar hyn o bryd. Edrychwch ar dudalen 5 i weld rhagor
7. **Newydd** – bydd ein ffurflenni adroddiad newydd yn gofyn i chi roi gwybod i ni am benderfyniadau arwyddocaol rydych chi'n bwriadu eu gwneud dros y flwyddyn nesaf, er enghraifft, gwerthu eiddo, rhoddion neu fuddsoddiadau. Gallwn wedyn eich cynghori chi os ydyn ni'n meddwl eich bod yn bwriadu gwneud unrhyw beth a allai dorri eich gorchymyn neu'ch dyletswyddau dirprwyaeth

## Dirprwyon awdurdod cyhoeddus

1. Ym mis Gorffennaf roeddem wedi cyhoeddi safonau ar gyfer dirprwyon awdurdod cyhoeddus a phroffesiynol. Edrychwch ar dudalen 10 i weld rhagor
2. Mae gennym ni raglen o ymweliadau sicrhau ar gyfer dirprwyon awdurdod cyhoeddus a phroffesiynol. Mae ein holl ymwelwyr wedi cael eu hyfforddi yn y safonau a byddan nhw'n gofyn am gael gweld tystiolaeth eich bod yn diwallu'r safonau pan fyddan nhw'n eich gweld chi. Byddwn yn rhoi adborth i chi am yr ymweliadau sicrhau wedyn.
3. **Newydd** – byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar gyfer achosion goruchwylio a arferai fod yn rhai math 3 dros y ddwy flynedd nesaf. Rydyn ni'n gwneud hyn fesul dirprwy, a byddwn yn cysylltu â chi cyn y bydd angen i chi ddechrau adrodd.
4. **Newydd** – o 2016 ymlaen, mewn achosion newydd byddwn yn gofyn i chi lenwi rhestr o asedau a chynllun blynyddol yn ystod pedwar mis cyntaf eich dirprwyaeth, gan nodi'r penderfyniadau allweddol rydych chi'n bwriadu eu gwneud. Ar gyfer achosion cyfredol, bydd hyn yn rhan o'r ffurflen adroddiad blynyddol newydd
5. **Newydd** – o nes ymlaen eleni ymlaen, byddwn yn gofyn i chi am y ffioedd rydych chi'n eu codi ar eich cleientiaid fel rhan o'ch adroddiad blynyddol

**Cofiwch - mae pwyntiau un i bedwar (uchod) hefyd yn berthnasol i ddirprwyon proffesiynol.**

## Dirprwyon proffesiynol

1. **Newydd** – o nes ymlaen eleni ymlaen, byddwn yn dechrau gofyn am amcangyfrif o'r ffioedd proffesiynol byddwch chi'n eu codi ar eich cleientiaid dros y 12 mis nesaf. Ar gyfer achosion newydd, bydd gofyn i chi ddarparu hyn cyn pen pedwar mis cyntaf y ddirprwyaeth. Ar gyfer dirprwyaethau cyfredol, bydd yn rhaid i chi fewnosod hyn yn eich adroddiad blynyddol i'w lenwi pan ddylech chi ei gyflwyno. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Swyddfa Costau'r Uwch Lysoedd a byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd a gwybodaeth holi ac ateb ar y cyd a fydd yn eich helpu gyda hyn. Byddwn yn rhannu hyn â'r sefydliadau sy'n eich cynrychioli i ofyn am sylwadau cyn llunio'r fersiwn terfynol
2. **Newydd** – ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 byddwn ni'n gwirio'r adroddiadau cyntaf gan unrhyw ddirprwyon proffesiynol a benodir o'r newydd yn llawn os nad ydyn nhw wedi delio ag achosion dirprwyaeth o'r blaen

## Ffurflenni adroddiad dirprwy newydd - pob dirprwy

Byddwn yn cyflwyno tri math o ffurflenni adroddiad:

- Mae ffurflen adroddiad llawn yn ein helpu i gasglu llawer o wybodaeth berthnasol am yr achos, gan gynnwys yr asedau sy'n cael eu rheoli, trefniadau byw'r cleient, unrhyw benderfyniadau buddsoddi a beth sy'n debyg o ddigwydd dros y 12 mis nesaf. Byddwn yn cynnal adolygiad llawn o ragor o'r adroddiadau hyn
- Bydd nifer o ddirprwyon yn llenwi ffurflen safonol, sy'n gofyn llai o gwestiynau ac yn rhoi cyfle i ni ddarparu'r lefel iawn o oruchwyliaeth yn yr achos.
- Bydd ffurflen adroddiad newydd ar gyfer dirprwyon iechyd a lles

## Pwyntiau allweddol - adroddiadau dirprwy

- O fis Ebrill eleni ymlaen, bydd pob dirprwy newydd yn cyflwyno adroddiad dirprwy ar ben-blwydd cael eu gorchymyn dirprwyaeth gan y llys
- Bydd pob dirprwy presennol nad oes yn rhaid iddyn nhw gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar hyn o bryd yn dechrau cyflwyno adroddiadau blynyddol dros y tair blynedd nesaf.
- Cyn gofyn i chi gyflwyno adroddiad dirprwy, byddwn yn eich ffonio ac yn ysgrifennu atoch chi i egluro'r broses ac ateb unrhyw gwestiynau
- Rydyn ni'n gwella'r ffurflenni a'r cyfarwyddyd i'w gwneud yn haws i chi lenwi a chyflwyno eich adroddiadau
- Rydyn ni'n gwella ein systemau TG a hyfforddiant ar gyfer ein staff er mwyn i ni allu eich helpu'n fwy effeithiol yn ystod y newid



# Yr adroddiad blynyddol ar gael yn ddigidol

**Dros y 12 mis diwethaf rydyn ni wedi bod yn datblygu gwasanaeth a fydd yn caniatáu i ddirprwyon ddiweddaru eu manylion a chwblhau adroddiadau blynyddol ar-lein.**

Mae'r teclyn ar-lein wedi cael ei ddylunio ar sail adborth gan ddirprwyon i sicrhau bod y system yn eich cefnogi yn eich dirprwyaeth.

Ar ddechrau'r prosiect roeddem wedi ymweld â grŵp bach o ddirprwyon i weld a oedden nhw angen gwasanaeth ar-lein, ac er mwyn cofnodi unrhyw bryderon am y gwasanaeth cyfredol neu am weithio ar-lein.

Roedden ni wedi dechrau adeiladu'r gwasanaeth ar-lein o amgylch y gofynion hyn, gan ganolbwyntio ar yr hyn mae pobl eisiau ei wneud a'i weld. Er enghraifft, roedd dirprwyon wedi dweud wrthym eu bod eisiau gwasanaeth diogel, a fyddai'n cynnwys help a chyfarwyddyd, a'u bod eisiau gallu cadw a dychwelyd at wybodaeth a oedd eisoes wedi cael ei chofnodi.


Drwy gydol y broses prototeip roeddem wedi parhau i siarad â defnyddwyr a phrofi pethau a hyd yn hyn rydyn ni wedi siarad â bron i 100 o ddirprwyon. Mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol gyda dirprwyon yn dweud bod y gwasanaeth yn 'syml' ac yn 'haws na llenwi'r ffurflen bapur'.

Roedd un dirprwy wedi gweld bod y broses o lenwi adroddiad blynyddol yn llai cymhleth gyda'r gwasanaeth ar-lein, a dywedodd:

"Byddwn i'n fodlon ei wneud ar-lein - mae'n llai brawychus na'r ffurflen."

Rydyn ni wedi bod yn treialu'r gwasanaeth gyda 50 o ddefnyddwyr drwy gydol mis Gorffennaf a mis Awst sydd wedi bod yn cwblhau eu hadroddiadau ac yn eu cyflwyno ar-lein. Byddwn yn dysgu o'u profiadau i wella'r gwasanaeth.

Yn dilyn y peilot, rydyn ni'n gobeithio rhannu'r gwasanaeth â grŵp mwy o ddirprwyon lleyg nes i ni gwblhau pob cam mae angen i ni eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaeth yn fyw ar gyfer pob dirprwy lleyg ei ddefnyddio i gwblhau eu hadroddiad.






Annual report digital test site

# Deddf Gofal 2014

**Ar gyfer nifer o ddirprwyon mae darparu neu drefnu gofal yn mynd law yn llaw â'r rôl - os oes gennych chi orchymyn dirprwyaeth eiddo a chyllid neu iechyd a lles.**


Mae cyflwyno Deddf Gofal 2014 yn newid sut gallwch chi gael gafael ar y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch chi a'ch cleient.

Mae'r Ddeddf, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2015, yn cyflwyno un ffordd gyson o gael gafael ar ofal a chefnogaeth.

Mae'r newidiadau cenedlaethol wedi cael eu dylunio i roi pobl wrth galon eu gofal a'u cefnogaeth. Rhaid i unrhyw benderfyniadau amdanyn nhw ystyried lles yr unigolyn a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw a'u teulu.

Mae gofal a chefnogaeth yn cyfeirio at yr help sydd ei angen ar rai oedolion i fyw cystal ag y gallan nhw ei wneud gydag unrhyw salwch neu anabledd. Mae'n gallu cynnwys help gyda phethau fel:

- codi allan o'r gwely
- ymolchi
- gwisgo
- coginio
- bwyta
- mynd allan
- cadw mewn cysylltiad â ffrindiau neu deulu



Mae'r Ddeddf Gofal hefyd yn gosod fframwaith cyfreithiol clir ar gyfer sut dylai awdurdod lleol a rhannau eraill o'r system iechyd a gofal cymdeithasol ddiogelu oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Bydd hyn yn cynnwys Byrddau Diogelu Oedolion Aml-asiantaethol i oruchwylio diogelu ar lefel ranbarthol.

Bydd y newidiadau'n dod i rym mewn dau gam.Mae'r cyntaf ar waith yn barod ac mae'n cynnwys:

- lefel genedlaethol o ofal a chefnogaeth ar draws pob awdurdod lleol, a fydd yn golygu gofal cyson ar gyfer pawb yn Lloegr
- cefnogaeth i ofalwyr – gan ddefnyddio'r asesiad gofalwyr newydd, bydd gofalwyr yn gallu cael gafael ar gefnogaeth ymarferol a chyngor i'w helpu i barhau yn eu rôl gofalu
- y cynllun taliad gohiriedig sy'n cael ei ymestyn ar draws Lloegr
- bydd gan awdurdodau lleol ddyletswydd i drefnu gofal a chefnogaeth i'r rheini sy'n cyllido eu hunain sydd angen hynny ac nad ydyn nhw'n byw mewn cartref gofal. Efallai y bydd ffi trefnu ar gyfer y gwasanaeth hwn
- bydd gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu cyngor a gwybodaeth am y dewisiadau gofal, gan gynnwys helpu pobl i gael gafael ar gyngor ariannol annibynnol

Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth fod oedi cyn cyflwyno ail gam y Ddeddf Gofal. Yn benodol, rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i drefnu gofal a chefnogaeth ar gyfer y rheini sy'n cyllido eu hunain sy'n byw mewn cartrefi gofal a diogelu yn erbyn costau gofal diderfyn, sy'n cael eu galw yn 'cap ar gostau gofal'. Mae disgwyl i'r newidiadau hyn ddod i rym nawr yn 2020.

Yng Nghymru, bydd newidiadau tebyg yn cael eu cyflwyno gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a ddaeth yn gyfraith ar 1 Ebrill 2014, ac a fydd yn cael ei gweithredu o fis Ebrill 2016 ymlaen. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?skip=1&lang=cy**

I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Gofal 2014 edrychwch ar **gov.uk/government/publications/care-act-2014-part-1-factsheets**

Os ydych chi'n ofalwr neu'n rhywun sy'n derbyn gofal ac rydych chi eisiau gwybod mwy am eich hawliau, edrychwch ar wefan eich awdurdod lleol.

Mae cyfarwyddyd statudol cynhwysfawr ar y Ddeddf Gofal ar gael yn **gov.uk/government/publications/care-act-2014-statutory-guidance-for-implementation**



# Astudiaeth achos iechyd a lles

**Ac yntau yn 45 oed, doedd David Potter*, o Northampton, erioed wedi meddwl y byddai'n rhaid iddo fod yn ddirprwy iechyd a lles ar gyfer dau aelod agosaf ei deulu.**

Mae'r cyn nyrs gyda'r GIG yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn sicrhau bod rhieni ei wraig, sydd ill dau yn dioddef o afiechyd Alzheimer, yn cael gofal iawn.

Gan fyw yn agos at ei rieni yng nghyfraith, Jim a Sandra Hill*, roedd yr arwyddion cyntaf nad oedd popeth yn iawn yn amlwg i David.

Mae'n egluro: "Roedd Jim yn gwneud ei orau glas i ofalu am Sandra ond roedd hi'n rhedeg draw atom ni i ddweud bod pobl ddiarth yn y tŷ. Dim ond y teledu oedd wedi cael ei adael ymlaen. Roedd adegau pan fyddai Jim yn gadael nodyn iddi yn dweud ei fod yn picio allan ond doedd hi ddim yn deall y nodyn a byddai hi eto'n rhedeg draw atom ni yn crïo ac yn poeni."

Wrth i Jim ofalu am Sandra, dechreuodd ei iechyd meddwl waethygu ac nid oedd yn gallu gofalu am ei wraig mwyach.

Dydy colli galluedd meddyliol ddim yn rhywbeth mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau meddwl amdano. Fodd bynnag, os a phan fydd y sefyllfa yn codi, efallai bydd perthnasau, ffrindiau neu rywun arall addas yn gwneud cais i fod yn ddirprwy drwy'r Llys Gwarchod.

Ar gyfer David a'i wraig Angela*, 43, roedd y broses hon yn un hir ond mae eu gorchymyn llys wedi bod yn ddefnyddiol.

Chwe mis cyn dyfarnu'r gorchymyn iechyd a lles, cafodd Mr a Mrs Hill eu symud i gartref gofal. Roedd David a'i wraig yn teimlo y gallai ei rieni yng nghyfraith ddychwelyd adref gyda help.

Dywedodd: "Roedden ni eisiau iddyn nhw gael eu hasesu ar gyfer cyllid Gofal Iechyd Parhaus er mwyn iddyn nhw allu aros gartref. Fodd bynnag, heb y gorchymyn, roedden ni'n teimlo bod gennym ni lai o awdurdod i gynrychioli eu dymuniadau.

"Gyda'r gorchymyn yn ei le, rydyn ni'n ymwneud â'r holl benderfyniadau gofal iechyd. Mae'r gorchymyn wedi bod yn hanfodol o ran eu triniaethau parhaus.

"Mae bywyd ychydig bach yn haws nawr."

Mae Mr a Mrs Hill yn cael gofal mewn cyfleusterau gofal ar wahân ond y gobaith ydy y byddan nhw'n gallu byw gyda'i gilydd eto mewn cartref eu hunain, gyda chefnogaeth gan ofalwyr.

* Sylwch fod yr enwau, yr oed a'r lleoliadau yn yr erthygl hon wedi cael eu newid i ddiogelu preifatrwydd yr unigolion dan sylw.



## Prif ffeithiau

### Beth ydy gorchymyn dirprwyaeth iechyd a lles?

Mae dirprwyon iechyd a lles yn cael eu penodi gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau ar ran rywun sydd heb y galluedd meddyliol i reoli eu materion eu hunain.

Fel dirprwy iechyd a lles, gallwch chi wneud penderfyniadau am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, fel:

- lle mae'r unigolyn yn byw
- gyda phwy y dylai fyw
- gofal o ddydd i ddydd, gan gynnwys deiet a dillad
- rhoi caniatâd ar gyfer archwiliadau a thriniaethau meddygol a deintyddol
- trefnu i ddarparu gwasanaethau gofal
- a ddylen nhw gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu gymdeithasol penodol
- cwynion am ofal neu driniaeth

### Ydw i angen gorchymyn iechyd a lles i wneud penderfyniadau ar gyfer un o f'anwyliaid?

Ni fydd angen i bawb wneud cais i'r llys i fod yn ddirprwy iechyd a lles. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae egwyddorion craidd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ddigon i sicrhau bod penderfyniadau am iechyd a lles rhywun yn gallu cael eu gwneud er eu budd gorau nhw.

Fodd bynnag, efallai bydd angen gwneud cais pan fydd angen gwneud penderfyniadau arbennig o anodd, anghytundeb nad oes modd ei ddatrys mewn unrhyw ffordd arall, neu sefyllfaoedd lle efallai bydd angen cyfres o benderfyniadau parhaus.

Yn wahanol i ddirprwyon ariannol, rhaid rhoi caniatâd y llys er mwyn bwrw ymlaen â chais am ddirprwyaeth iechyd a lles. A rhaid darbwyllo'r llys bod angen penodi dirprwy.

### Sut gallaf wneud cais am orchymyn dirprwyaeth iechyd a lles?

I wneud cais i fod yn ddirprwy, bydd angen i chi gyflwyno cais i'r Llys Gwarchod. Mae dau gam i'r broses hon - yn gyntaf, cais cychwynnol yn gofyn i'r llys am ganiatâd i fod yn ddirprwy. Os ydych chi'n cael caniatâd, gallwch wedyn wneud cais i fod yn ddirprwy iechyd a lles - gan roi esboniad manwl i'r llys am y rhesymau am eich cais. Ar ôl llwyddo, byddwch chi'n cael gorchymyn llys sy'n gosod y meini prawf y bydd yn rhaid i chi eu dilyn ac sy'n cadarnhau eich bod yn cael bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

**Mae'r ffurflenni ar gael ar gov.uk/become-deputy**

# Safonau dirprwy proffesiynol ac awdurdod cyhoeddus – newid er gwell

**Drwy gyhoeddi'r safonau dirprwy newydd ym mis Gorffennaf, am y tro cyntaf mae gan weithwyr proffesiynol ac awdurdodau cyhoeddus ganllawiau clir i'w cefnogi yn eu rôl fel dirprwyon.**

Nod y dull gweithredu ydy sicrhau bod pobl yn cael y lefel o gefnogaeth a goruchwyliaeth sydd fwyaf priodol i'w hachos unigol.

Mae'r safonau wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth â dirprwyon proffesiynol ac awdurdodau cyhoeddus a'r cyrff sy'n eu cynrychioli.

Maen nhw'n edrych ar bob agwedd o reoli materion cleientiaid, o sicrhau bod eiddo, cyllid ac asedau'n cael eu rheoli'n dda i gofnodi dymuniadau, credoau a diddordebau cleientiaid.

Mae'r safonau'n nodi'n glir beth a ddisgwylir gan ddirprwyon ac yn rhoi rhestr wirio bwysig o gamau gweithredu ac ymddygiadau y dylai pob dirprwy eu dilyn.


Mae pum prif safon:

1. Sicrhau cyllid ac asedau'r cleient
2. Meithrin dealltwriaeth o'r cleient er mwyn gwneud penderfyniadau er budd pennaf y cleient
3. Cynnal prosesau a threfniadau swyddfa mewnol effeithiol
4. Meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni dyletswyddau dirprwy
5. Safonau iechyd a lles

Mae'r safonau'n perthyn i gategorïau clir, yn ôl y math o ddirprwyaeth. Mae safonau un i bedwar yn ymwneud â materion o ran eiddo ac arian, ac mae safonau dau i bump yn berthnasol i'r rheini sy'n ymwneud â gorchmynion lles personol.

Bydd y safonau hyn nawr yn cael eu cynnwys fel rhan o adolygiadau sicrwydd, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, a fydd yn cael eu cynnal gan ymwelwyr Llys Gwarchod a rheolwyr achosion y naill a'r llall.

I gael copi o'r safonau, ewch i **gov.uk/government/publications/office-of-the-public-guardian-deputy-standards**



# Diwrnod ym mywyd ymwelydd

**Roedd rhifyn diwethaf InTouch yn edrych ar ymweliadau. Nawr rydyn ni am edrych yn nes ar ddiwrnod nodweddiadol ymwelydd Llys Gwarchod.**

*Mae Fiona yn adrodd ei stori.*

"Ar ôl cwrdd â f'ymwelydd fy hun fe wnes i sylweddoli y byddwn i'n hoffi ei wneud fy hun gan fod gen i gefndir mewn rheoli cyllidebau gofal cymdeithasol, roedd gen i rywfaint o wybodaeth broffesiynol. Rwy'n mwynhau bod yn ymwelydd, mae'n grêt.

"Dwi'n rhoi lot o gefnogaeth ymarferol er mwyn helpu'r dirprwyon i gydymffurfio â gofynion yr OPG. Fel dirprwy fy hun, dwi'n gwybod am boen cyflwyno cyfrifon. Mae pobl yn gallu gweld fy mod i'n deall oherwydd fy mod i wedi bod drwy hyn fy hun," ychwanegodd.

"Does dim ffasiwn beth â diwrnod arferol. Mae pob diwrnod yn wahanol, sy'n beth da."

Bydd Fiona yn cynnal hyd at dri ymweliad y dydd rhwng dydd Llun a dydd Iau. Bydd hi'n treulio dydd Gwener yn gwneud gwaith gweinyddol ac yn cyflwyno adroddiadau ymweliadau i'r OPG, yn ogystal â pharatoi ei dyddiadur.

"Bydda i'n teithio eithaf tipyn. Mae fy ymweliadau'n cael eu cynnal yng Ngogledd Cymru a Chilgwri gan amlaf ond byddaf hefyd yn gweithio mewn rhannau o Swydd Gaer.



"Mae pawb byddaf yn ymweld â nhw mewn sefyllfa unigryw ac yn wynebu sialensiau gwahanol. Dwi wrth law i helpu gyda beth bynnag, i gynnig cefnogaeth ac i sicrhau bod y sawl sydd heb alluoedd yn cael cefnogaeth."

Bydd Fiona yn ymweld â phob math o ddirprwyon, o bobl leyg heb unrhyw brofiad o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i ddirprwyon proffesiynol sy'n arbenigwyr cyfreithiol mewn cwmnïau cyfreithiol mawr.

Ym mhob achos, bydd yr ymwelwyr yn gweld sut mae dirprwy yn rheoli materion y sawl maen nhw'n ei gynrychioli a sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan.

"Dwi eisiau sicrhau bod y cleient yn cael ei gefnogi'n dda, yr ymgynghorir â nhw a'u bod yn dal i reoli pethau ac yn gallu gwneud penderfyniadau pan fydd modd iddyn nhw wneud hynny."

Os cewch chi eich dewis am ymweliad, bydd rhywun yn cysylltu â chi i wneud y trefniadau.

# Bancio ar wasanaeth gwell

**Mae gorchmynion dirprwyaeth ac atwrneiaethau arhosol (LPAs) yn rhoi'r pwerau cyfreithiol sydd eu hangen ar bobl i helpu i reoli materion rhywun arall.**

Yn anffodus, mae gormod o ddirprwyon ac atwrneiod yn dal i deimlo bod y gwasanaeth maen nhw'n ei gael gan fanciau a sefydliadau ariannol eraill yn eu gadael i lawr. Dyma pam mae'r OPG wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r sector ariannol, o'r rheoleiddwyr at y banciau a'r cymdeithasau adeiladu unigol, i helpu i wella pethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

Bydd yr OPG yn cwrdd yn rheolaidd â'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i dynnu sylw at feysydd sy'n achosi pryder penodol.

Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi bod yn datgan sut gall sefydliadau ariannol wella gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed. Mae'r OPG wedi bod yn ymwneud yn agos â'r fenter hon yn ogystal â gwaith ehangach yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i sicrhau bod polisïau banciau, sydd â'r bwriadau gorau, yn trosi i fod yn ymarfer gorau ar y rheng flaen.

Yn ddiweddar roedd y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol wedi cynnal ymgyrch yn tynnu sylw at y materion mae atwrneiod a dirprwyon yn eu hwynebu wrth ddelio â banciau. Cyhoeddodd gyfarwyddyd newydd hefyd yn rhoi cyngor ymarferol i staff rheng flaen mewn banciau a chymdeithasau adeiladau yn ogystal ag ar gyfer defnyddwyr sy'n rheoli materion rhywun arall.

Mae gennym hefyd gysylltiadau agos â Chymdeithas Bancwyr Prydain a Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu. Mae ein tîm rheoli cysylltiadau cwsmeriaid mewn cyswllt rheolaidd â'r cyrff diwydiant hyn, gan fwydo eich profiadau yn ôl a gan nodi sut y gellid ac y dylid gwella gwasanaeth i gwsmeriaid. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda banciau a chymdeithasau adeiladu fesul un.



Mae gennym ni berthynas waith dda â holl brif fanciau'r stryd fawr yn barod, ond erbyn diwedd eleni rydyn ni'n gobeithio y bydd gennym ni gysylltiadau cryf â phob banc a hyd yn oed y cymdeithasau adeiladu llai.

Mae'n glir nad oes neb eisiau cynnig gwasanaeth gwael nac achosi straen heb fod angen. Yn rhy aml bydd bwriadau corfforaethol da yn dal i fethu ac ni fydd y staff rheng flaen yn deall y pwerau mae'r gyfraith yn eu rhoi i ddirprwyon ac atwrneiod.

Dyma pam ein bod yn gweithio'n galed i helpu i wella'r hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen. Gan weithio gyda sefydliadau partner, rydyn ni wedi bod yn brysur yn datblygu e-ddysgu er mwyn gwella dealltwriaeth busnesau a gwasanaethau o ddirprwyaeth ac atwrneiaethau arhosol. Bydd y cyntaf o'r rhain, sydd wedi cael ei anelu at staff banciau, yn cael ei lansio yn nes ymlaen eleni.

Rydyn ni'n gwybod bod banciau a chymdeithasau adeiladu yn gweithio'n galed i wella'r gwasanaeth maen nhw'n ei gynnig i ddirprwyon ac atwrneiod, ond nid da lle gellir gwell. Mae eich profiadau chi yn bwysig i ni a byddwn yn dal i ddefnyddio eich adborth i gyfrannu at ein gwaith gyda rheoleiddwyr, cyrff cynrychioladol a banciau a chymdeithasau adeiladu unigol er mwyn helpu i sicrhau eich bod chi'n cael y gwasanaeth rydych chi'n ei haeddu.

# Dewis nid Damwain

**Yn ôl ym mis Chwefror, roedden ni wedi bod yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar ymgyrch fer i annog pobl i gynllunio ar gyfer y dyfodol. 'Choice not Chance' ydy enw'r ymgyrch ac roedd yn annog pobl i sefydlu atwrneiaeth arhosol, llunio ewyllys neu gofrestru ar y gofrestr rhoi organau.**

Mae cofrestru atwrneiaethau arhosol yn rhan bwysig o rôl yr OPG ac erbyn hyn mae dros filiwn a hanner ar y gofrestr. Mae hyn yn newyddion gwych ond rydyn ni eisiau gweld rhagor o bobl yn elwa drwy fod ag atwrneiaeth arhosol mewn lle. Dyna pam roedd yr ymgyrch yn annog pobl i feddwl beth fyddai'n digwydd petaen nhw'n colli galluedd meddyliol ac y byddai arnyn nhw angen rhywun i wneud penderfyniadau ar eu rhan.

Fel dirprwyon, rydych chi'n gwybod am anawsterau peidio â chael atwrneiaeth arhosol mewn lle wrth geisio gofalu am rywun rydych chi'n ei garu. Mewn gwirionedd, mae ymchwil* yn dangos bod dirprwyon yn fwy tebygol o lunio atwrneiaeth arhosol, gan eu bod wedi bod drwy'r broses o fod yn ddirprwy a benodwyd drwy'r llys.

Hyd yma mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol ac rydyn ni'n gobeithio y bydd llawer mwy o bobl nawr yn ystyried cynllunio ymlaen llaw o ddifrif.

Os ydych chi eisiau gwybod am yr ymgyrch neu os nad ydych chi wedi llunio atwrneiaeth arhosol, ewch i GOV.UK a chwilio am 'Choice not Chance'.




**O 1 Gorffennaf ymlaen, cafodd ffurflenni atwrneiaeth arhosol symlach a chliriach eu cyflwyno ar gyfer materion eiddo ac ariannol ac iechyd a lles. I gael gwybod mwy, edrychwch ar GOV.UK.**

*Ipsos Mori, 'The Future of Lasting Power of Attorney: adroddiad ymchwil ar gyfer Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus' (2014)

# Partneriaeth yr OPG gyda'r Gymdeithas Alzheimer

**Mae gofalu am rywun â dementia yn gallu bod yn anodd yn enwedig wrth geisio rheoli eu biliau o ddydd i ddydd a'u materion personol, fel trefnu presgripsiynau amlroddadwy, talu biliau cyfleustodau neu hawlio budd-daliadau ar eu rhan.**

Rydyn ni'n gwybod yn iawn am y rhwystrau sy'n wynebu dirprwyon wrth weithredu ar ran eu cleient. Yn rhy aml bydd sefydliadau'n ansicr ynghylch yr hawliau sydd gan bobl o dan y Ddeddf Deddf Diogelu Data ac oherwydd eu bod yn ansicr, mae'n gallu teimlo'n fwy diogel gwrthod yn hytrach na chaniatáu cais rhesymol.

Dyna pam mae cyfarwyddyd y Gymdeithas Alzheimer - Accessing and Sharing Information - yn adnodd mor werthfawr. Cafodd ei lansio yn gynharach eleni, ac mae'n chwalu mythau cyffredin am Ddeddf Deddf Diogelu Data ac mae'n nodi hawliau pobl yn glir. Yn ogystal â gwneud delio â busnesau a gwasanaethau'n haws, mae hefyd yn helpu pobl i fynnu cael lefel briodol o wasanaeth.

Mae'r llyfr sy'n hwylus o ran dementia wedi cael ei rannu yn adrannau sy'n ymwneud â sefyllfaoedd gwahanol a allai wynebu pobl:

- pan fydd gennych chi bŵer cyfreithiol
- pan fydd gennych chi ganiatâd ond dim pŵer cyfreithiol
- pan fyddwch chi'n methu cael caniatâd a does gennych chi ddim pŵer cyfreithiol
- os bydd pethau'n mynd o chwith.

Yn dilyn Sialens ar Ddementia'r Prif Weinidog a lansiwyd yn 2012 mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi bod yn grŵp arweiniol sy'n edrych ar y ffordd mae gwybodaeth bersonol a data'n cael ei defnyddio gan ac ar gyfer pobl â dementia. Fel rhan o'r grŵp roeddem wedi gweithio'n agos gyda'r elusen a nifer o sefydliadau gwahanol, gan gynnwys banciau a darparwyr cyfleustodau i gynhyrchu'r llawlyfr cyfarwyddyd hwn.

Fel sefydliad sy'n hwylus o ran dementia, rydyn ni wedi ymrwymo i wella gofal a chefnogaeth i bobl â dementia, a byddwn yn parhau i weithio gydag elusennau, busnesau a gwasanaethau'n gyffredinol i sicrhau canlyniadau gwell i'n cwsmeriaid.

Mae Accessing and Sharing Information ar gael i'w lwytho i lawr o wefan y Gymdeithas Alzheimer yn **alzheimers.org.uk/sharinginformation.**
Mae copïau caled ar gael gan y Gymdeithas Alzheimer ar gais.



# Cysylltiadau defnyddiol

## Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG)

Mae'r OPG yn gyfrifol am gofrestru atwrneiaethau arhosol a pharhaol, er mwyn i bobl allu dewis pwy maen nhw am iddyn nhw wneud penderfyniadau ar eu rhan. Rydyn ni'n cadw cofrestr gyhoeddus o ddirprwyon a phobl sydd wedi cael atwrneiaethau arhosol a pharhaol.

Rydyn ni hefyd yn goruchwylio ac yn cefnogi dirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod ac yn edrych ar adroddiadau ynghylch cam-drin yn erbyn atwrneiod neu ddirprwyon cofrestredig

**Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus**
**Blwch Post 16185**
**Birmingham**
**B2 2WH**

**www.gov.uk/opg**

## Canolfan Gyswllt Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

**Ffôn: 0300 456 0300**

**9am i 5pm - dydd Llun i ddydd Gwener**

**10am to 5pm - dydd Mercher**

**Ni chodir mwy na'r gyfradd galwadau cenedlaethol ar alwadau**

**E-bost: customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk**

Os ydych chi'n cael anawsterau lleferydd neu glyw a'ch bod yn gallu defnyddio ffôn testun, gallwch chi ddefnyddio'r **Ffôn testun ar 0115 934 2778**

**Ffacs: 0870 739 5780**

I lwytho ffurflenni neu gyfarwyddyd ynghylch dirprwyaeth i lawr, ewch i: **www.gov.uk/become-deputy**

## Tîm Ymweliadau'r OPG

**E-bost: opgvisitorsoffice@publicguardian.gsi.gov.uk**

## Y Llys Gwarchod

Mae'r Llys Gwarchod yn llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n gysylltiedig â phobl nad oes ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau penodol. Mae'r llys yn gwneud penderfyniadau ac yn penodi dirprwyon i wneud penderfyniadau er budd gorau'r rheini sydd heb alluedd i wneud hynny.

**Y Llys Gwarchod**
**Blwch Post 70185**
**First Avenue House**
**42 - 49 High Holborn**
**Llundain**
**WC1A 9JA**

**Ffôn: 0300 456 4600**

I lwytho ffurflenni'r Llys Gwarchod i lawr, ewch i: HMCTS Form Finder **http://hmctscourtfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do**

I weld gwybodaeth am benderfyniadau'r Llys Gwarchod, ewch i: **www.bailii.org/ew/cases/EWHC/COP**

**Cysylltwch ag InTouch**

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
Blwch Post 16185, Birmingham, B2 2WH

**intouch@publicguardian.gsi.gov.uk**